

CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

DYDDIAD: 30 GORFFENNAF 2020

TEITL: CYFRIFON TERFYNOL 2019/20 – ALLDRO REFENIW

PWRPAS: EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL 2019/20

GWEITHREDIAD: Derbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2019/20, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.

SWYDDOG CYSWLLT: FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID

AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID

1. Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2019/20 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma yw sail i'r datganiadau statudol sydd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod yma o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
2. Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 16 Mehefin o'r Cabinet sydd ar y tudalennau dilynol.
3. Nodaf fod rhan 5 ac Atodiad 3 i'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd a darpariaethau'r Cyngor.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.